**CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG DE-ORLLEWIN CYMRU**

**(O Bell Trwy Teams)**

| **<u>Aelodau sy'n Bresennol:</u>** | **<u>Dydd Mawrth, 11 Hydref 2022</u>** |
|---|---|
| **Cadeirydd:** | **Cynghorydd R.Stewart** |
| **Cynghorwyr**: | D.Price, D.Simpson a/ac S.K.Hunt |
| **Parc Cenedlaethol Cynrychiolwyr:** | A.Edwards a/ac T.Jones |
| **Swyddogion sy'n Bresennol:** | M.Nicholls, W.Walters, W.Bramble, G.Jones, D.Clements, K.Jones, C.Griffiths, S.Curran, O.Enoch, C.Moore, Jones, Ronan a/ac R.Arnold |
| **Prifysgol Hywel Dda Bwrdd Iechyd Cynrychiolwyr:** | L.Davies a/ac M.Battle |

---

1. **<u>CROESO A CHYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD</u>**

   Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

2. **<u>DATGANIADAU O FUDDIANNAU</u>**

   Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau.

3. **<u>COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL</u>**

   Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfodydd blaenorol a gynhaliwyd ar 25 Ionawr, 15 Mawrth 2022 a 26 Gorffennaf 2022 fel cofnod cywir.

4. **<u>BLAENRAGLEN WAITH</u>**

   Nodwyd bod dyddiad cyfarfod mis Rhagfyr wedi newid o 1 Rhagfyr 2022 i ddyddiad hwyrach sydd wedi'i aildrefnu, ac y byddai hyn yn cael ei adlewyrchu yn y Flaenraglen Waith.

   Cynhaliwyd trafodaeth fer mewn perthynas ag ariannu gweithgaredd

gwaith cyfredol ac arfaethedig Cyd-bwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru. Yn hyn o beth, cadarnhaodd y Cadeirydd ei fod wedi ysgrifennu at y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol mewn perthynas â'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol (CTRh). Cafwyd ymateb gan y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd, lle nodwyd y bydd Llywodraeth Cymru’n rhoi ystyriaeth i ddarparu cefnogaeth fel rhan o ddatblygu canllawiau, a'i bod yn fwriad sicrhau bod cefnogaeth dechnegol ar gael drwy Trafnidiaeth Cymru. Er bod arian wedi'i dderbyn ar gyfer sefydlu Cyd-bwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru, roedd yr aelodau'n tybio y bydd hi'n bwysig parhau i lobïo Llywodraeth Cymru i gael cyllid ychwanegol i gefnogi gweithgareddau gwaith.

Dywedwyd wrth yr aelodau y bydd y Cynllun Datblygu Strategol (CDS) yn cael ei gynnwys ar agenda cyfarfod mis Rhagfyr Cyd-bwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru; y bwriad oedd y bydd hyn yn amlinellu'r cwmpas a'r goblygiadau posib o ran adnoddau sy'n gysylltiedig â pharatoi'r CDS. Ychwanegwyd y gellid ystyried bod gwybodaeth o'r fath yn fuddiol a chaniatáu rhagor o ohebiaeth gyda Llywodraeth Cymru o ran gofyn am gymorth ariannol.

Cadarnhawyd y byddai angen rhagor o ddeialog gyda Thrafnidiaeth Cymru o ran eu cyfraniad tuag at ddatblygu'r CTRh. Dywedwyd y byddai'r gwaith hwn yn cael ei wneud dros yr wythnosau nesaf, a fydd yn rhoi eglurder pellach ar beth fydd yr effaith a'r goblygiadau i Gyd-bwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru. Soniwyd y gallai fod angen i Swyddogion gysylltu ymhellach â'r Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd yn dibynnu ar ganlyniad y trafodaethau hynny.

Gwnaed cais i gynnwys eitem agenda yng nghyfarfod mis Rhagfyr 2022 am rôl a chylch gwaith Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ac Arfordir Penfro (APC) mewn perthynas â Chyd-bwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru. Cyfeiriwyd at ohebiaeth flaenorol a materion eglurhad ar y mater hwn, fodd bynnag cytunwyd mewn egwyddor bod y mater yn cael ei restru i'w drafod ym mis Rhagfyr 2022 os ystyrir ei fod yn briodol ac os oes angen.

Nodwyd y Flaenraglen Waith.

## 5. **CYFLWYNIAD AR Y BUDDSODDIAD YN YR YSTAD IECHYD - BWRDD IECHYD PRIFYSGOL HYWEL DDA**

Derbyniodd y Pwyllgor gyflwyniad gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda a oedd yn canolbwyntio ar fuddsoddiad arfaethedig yn eu hystad.

Esboniodd Cyfarwyddwr Gweithredol Datblygu Strategol a Chynllunio Gweithredol Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda fod Hywel Dda wedi gwasanaethu poblogaeth o tua 385,000 ar draws tair sir yng ngorllewin Cymru, gan gwmpasu ardal ddaearyddol fawr iawn; nodwyd nad oedd y boblogaeth yn annhebyg i Fyrddau Iechyd eraill o ran maint, fodd bynnag roedd ar wasgar ar draws ardal wledig helaeth. Oherwydd hyn, nodwyd bod heriau trafnidiaeth a theithio yr oedd angen mynd i'r afael â nhw. Cafodd aelodau wybod nad oedd gan dde-orllewin Cymru dref na dinas fawr ganolog i adeiladu'r gwasanaethau hyn o'u cwmpas; roedd hwn yn bwynt allweddol o ran etifeddiaeth cyfluniad gwasanaethau iechyd a etifeddwyd, at ffurfio'r Bwrdd Iechyd.

Yn dilyn yr uchod, dywedwyd bod gan y Bwrdd Iechyd gyfluniad o wasanaethau a oedd yn dyddio'n ôl i'r 1950au/1960au; roedd llawer o broblemau a heriau wedi dod i'r amlwg dros yr 20 mlynedd diwethaf o ganlyniad i hynny, gan gynnwys heriau ariannol a chynaliadwyedd a breuder gwasanaethau. Eglurwyd bod hyn yn golygu bod rhai gwasanaethau wedi gorfod dod i ben neu ganoli i un lleoliad, ac roedd rhai o'r ardaloedd gwasanaeth eraill oedd yn parhau ar fin dod i ben. Hysbyswyd y Pwyllgor mai dyma gefndir datblygu Strategaeth 'Canolbarth a Gorllewin Cymru Iachach', a'i fwriad oedd gosod cyfeiriad tymor hwy ar gyfer gwasanaethau iechyd cynaliadwy ar gyfer canolbarth a gorllewin Cymru.

Amlygwyd mai un o'r heriau sylweddol yn y dyfodol oedd yr angen am fuddsoddiad yn y gwahanol ystadau; yn benodol Ysbyty Cyffredinol Glangwili ac Ysbyty Cyffredinol Llwynhelyg, fodd bynnag roedd angen buddsoddiad ym mhob ysbyty. Nodwyd bod 40% o ystad Hywel Dda dros 50 oed; pwysleisiodd hyn yr angen am fuddsoddiad yn yr ystadau hyn a'u cyfleusterau.

Her sylweddol arall a nodwyd oedd ynghylch y gweithlu a chynaliadwyedd y model a oedd yn cael ei gyflwyno ar hyn o bryd. Cadarnhaodd y Bwrdd Iechyd eu bod wedi gweld poblogaeth sy'n heneiddio a chynnydd yn y galw’n raddol; nid oedd y model gofalu hŷn bellach yn addas ar gyfer gofynion a phwysau'r byd modern. Soniwyd bod y strategaeth yn nodi newid tuag at gadw pobl yn iach, ataliaeth a hunanofal, gyda chyfrannau llawer is o afiechyd yn cael eu rheoli mewn lleoliadau acíwt.

Er mwyn cefnogi'r strategaeth a'i goblygiadau o ran isadeiledd, hysbyswyd yr Aelodau fod y Bwrdd Iechyd wedi nodi bod angen gwneud rhai gwelliannau i'r cyfleusterau oedd ar waith ar hyn o bryd.

Nodwyd bod gwaith wedi dechrau i ddatblygu rhwydwaith o gyfleusterau cymunedol dros y blynyddoedd diwethaf; datblygwyd cyfleusterau integredig newydd yng Ngheredigion, Aberaeron, ac roedd cynlluniau i ddatblygu cyfleusterau tebyg ar draws yr holl drefi ac ardaloedd poblogaeth allweddol yn ardal y Bwrdd Iechyd.

Yn ogystal â'r uchod, amlygwyd bod angen newid yn y ffordd mae Ysbyty Cyffredinol Glangwili ac Ysbyty Cyffredinol Llwynhelyg yn gweithredu, a'r angen i sefydlu ystod o wasanaethau ysbyty cymunedol er mwyn diwallu'r anghenion; bydd angen newidiadau cymharol fach hefyd i Ysbyty Cyffredinol Tywysog Philip ac Ysbyty Bronglais o ran cyfluniad gwasanaethau, y byddent yn ofynnol er mwyn eu gwneud yn gynaliadwy ar gyfer y tymor hir.

Roedd y cyflwyniad yn manylu ar y cynlluniau datblygu isadeiledd cymunedol tymor byr, canolig a hir yr oedd y Bwrdd Iechyd wrthi'n datblygu, y soniwyd am rai ohonynt eisoes ac eraill a oedd ar y gweill; dros y pump i saith mlynedd nesaf, bydd Swyddogion o fewn y sefydliad yn datblygu'r cyfleusterau hyn yn yr ardaloedd a amlygwyd, ac yn gweithio gydag awdurdodau lleol i sicrhau bod model gwasanaeth addas yn cael ei ddatblygu ac ar waith ar gyfer y trefi a'r ardaloedd hynny. Roedd y cyflwyniad hefyd yn manylu ar enghraifft ddrafft o ran sut y gallai'r rhwydwaith cymunedol integredig edrych; bydd pob rhwydwaith cymunedol integredig yn wahanol, oherwydd bydd angen eu cynllunio i gyd-fynd ag anghenion y boblogaeth leol.

Amlygodd y Bwrdd Iechyd y cyfle presennol i dde-orllewin Cymru, wrth ddod â buddsoddiad i'r ardal; tanfuddsoddwyd mewn iechyd yng ngorllewin Cymru dros y 30 i 40 mlynedd diwethaf, a gallai'r cyfle hwn helpu i unioni'r broblem hon. Eglurwyd bod buddsoddiad cyfalaf sylweddol yn gysylltiedig â'r cynlluniau a nodir yn y cyflwyniad; pe bai modd sicrhau'r cyfalaf hwn gan Lywodraeth Cymru, bydd yn dod â chyfleoedd i gymunedau lleol mewn sawl maes fel addysg, cadwyni cyflenwi, datblygu canol trefi a hyfforddiant a chyflogaeth. Hysbyswyd yr Aelodau mai un o'r amcanion drwy'r gwaith hwn oedd gadael etifeddiaeth barhaus i'r poblogaethau lleol, a sicrhau y bydd y buddsoddiad yn cael ei roi'n ôl yn nwylo'r busnesau a'r cymunedau lleol.

Hysbyswyd y Pwyllgor am sefyllfa bresennol yr ysbyty gofal brys a gofal cynlluniedig newydd; codwyd y pwyntiau allweddol canlynol:

- Bydd gan yr ysbyty tua 500 o welyau - roedd hyn yn fwy o lawer na'r cyfleusterau cyfredol sydd ar waith, fodd

bynnag mae'n cymharu ag ysbyty canolig ei faint o safonau'r DU.

- Ochr yn ochr â'r ysbyty iechyd corfforol, bydd cyfleuster iechyd meddwl, amrywiaeth o wasanaethau diagnostig a gwasanaethau cymorth eraill hefyd.
- Bydd y datblygiad yn defnyddio egwyddorion dyluniad bioffilig sy'n edrych ar gyfleoedd i ddefnyddio natur, a rhyngweithio â natur, i gefnogi adsefydlu a thriniaeth fel rhan o'r cynnig gofal iechyd - bydd hyn hefyd yn cefnogi staff a'r boblogaeth leol gydag adeilad sy'n canolbwyntio llawer mwy ar ddefnyddio dyluniad da, i ddod â'r amgylchedd a'r ysbyty ynghyd.
- Roedd y llinellau amser yn heriol am yr hyn y bwriadwyd ei gyflawni, oherwydd y nod ar hyn o bryd oedd rhoi'r newidiadau ar waith, gan gynnwys datblygu'r ysbyty newydd, erbyn 2029 - mae'n bosib y bydd newidiadau i'r llinell amser yn y dyfodol.
- Roedd y Bwrdd Iechyd wedi cyflwyno achos busnes y rhaglen i Lywodraeth Cymru ac roedd wedi mynd drwy ei phrosesau arferol - derbyniwyd adborth, a oedd yn cynnwys y ffaith yr hoffai Llywodraeth Cymru weithio gyda'r Bwrdd Iechyd ymhellach ar ddarn o waith clinigol ar y model, a chefnogi'r gwaith o ddatblygu achos amlinellol strategol, sef cam nesaf y broses hon.
- Roedd y broses o ddewis tir ar gyfer yr ysbyty newydd yn mynd rhagddi - roedd y broses gyhoeddus o nodi tir wedi'i chwblhau, gydag 11 safle yn cael eu hystyried ac yna rhestr fer o bump (un yn Arberth, dau yn Hendy-gwyn ar Daf a dau yn Sanclêr). Ychwanegwyd yr ymgymerwyd â phedair ffrwd waith dros y chwe mis diwethaf i werthuso'r safleoedd, gan gynnwys cynrychiolaeth gyhoeddus ar werthuso'r safle technegol, yr aethpwyd â manylion yn eu cylch i gyfarfod o'r Bwrdd ym mis Awst, a arweiniodd at leihau'r safleoedd i lawr i dri (dau yn Hendy-gwyn ar Daf ac 1 yn Sanclêr). Cytunwyd ar y pwynt hwn i fynd i ymgynghoriad cyhoeddus ar y tri safle cyn gwneud unrhyw benderfyniadau pellach.

Nodwyd pwysigrwydd trafnidiaeth; ym mhob trafodaeth â'r cyhoedd, un o'r cwestiynau allweddol a gododd drosodd a throsodd oedd o ran y cynllun ar gyfer trafnidiaeth i ded-orllewin Cymru, a sut yr roedd yn mynd i effeithio ar ddarparu gwasanaethau. Nodwyd bod y cyhoedd

yn naturiol yn poeni am deithio'n bell i dderbyn y gwasanaethau, yn enwedig o ystyried rhai problemau yn ymwneud â chludiant cyhoeddus; bydd cyfle i'r Bwrdd Iechyd gydweithio gyda Chyd-bwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru, a Thrafnidiaeth Cymru, i edrych ar beth allai'r cynnig trafnidiaeth hwnnw fod a'r hyn y gellid ei wneud dros y 10 mlynedd nesaf i gefnogi hynny.

Cynhaliwyd trafodaeth o ran y camau nesaf, gan dynnu sylw at sefyllfa bresennol achos busnes y rhaglen, a bod y Bwrdd Iechyd yn cynnal trafodaethau â Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd ar sut i symud ymlaen â'r mater; yn ogystal â'r cynllun parhaus i ddatblygu'r cyfleusterau cymunedol sy'n rhan o'r Strategaeth ac achos busnes y rhaglen.

Daeth Cyfarwyddwr Gweithredol Datblygu Strategol a Chynllunio Gweithredol i'r casgliad bod y gwaith a wnaed rhwng 2017 a 2018, sef adolygiad tymor hir, sylfaenol o ofal iechyd a'r modd y cafodd gwasanaethau gofal iechyd eu darparu, wedi arwain at lunio Strategaeth 'Canolbarth a Gorllewin Cymru Iachach'. Ochr yn ochr â'r manteision iechyd hyn, dywedwyd bod cyfleoedd eraill ar gyfer gorllewin Cymru mewn ystyr llawer ehangach;  manteision tymor hir ar gyfer swyddi, yr economi, addysg a hyfforddiant, a thrafnidiaeth. Hysbyswyd yr Aelodau fod y Bwrdd Iechyd yn awyddus i weithio gyda'r Cyd-bwyllgor Corfforedig wrth i hyn ddatblygu ymhellach.

Cyfeiriwyd at yr amserlenni, a phryd y byddai cynnydd pellach yn cael ei adrodd yn ôl i'r rheini yr effeithiwyd arnynt gan y gwaith hwn; roedd yn bwysig cynnwys pob aelod yn y drafodaeth honno. Nodwyd bod y strategaeth wedi'i datblygu'n wreiddiol yn 2018, a chyflwynwyd achos busnes y rhaglen ym mis Chwefror eleni; dim ond ym mis Medi y derbyniwyd ymateb Llywodraeth Cymru, sydd wedi achosi ychydig o newid yn y llinell amser. Ychwanegwyd ei bod hefyd yn ofynnol i'r Bwrdd Iechyd ddatblygu Datganiad Achos a allai hefyd gael effaith; bydd y llinell amser yn cael ei derbyn o ganlyniad i'r ffactorau hyn.

Ymhellach at yr uchod, nodwyd bod Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i'r adolygiad model clinigol ac y byddai'n cefnogi'r Bwrdd Iechyd gyda chyllid yr achos amlinellol strategol; y rhain oedd y camau rhagweithiol a chadarnhaol cyntaf a gafwyd gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â'r cynllun. Er nad oedd y Bwrdd Iechyd yn union lle'r oedd wedi bwriadu bod o ran cael achos busnes y rhaglen wedi'i gymeradwyo, dywedwyd eu bod wedi'u hannog gan y ffaith bod Llywodraeth Cymru'n cydnabod yr achos dros newid ac yn gweithio gyda nhw ar y camau nesaf. Ni ellid darparu'r union amseriadau ar

gyfer pob un o'r elfennau hyn eto, fodd bynnag nodwyd bod y Bwrdd Iechyd yn bwriadu cynnal yr adolygiad clinigol yng ngwanwyn 2023; a chwblhau'r Datganiad Achos, yn amodol ar faint o fanylion y byddai Llywodraeth Cymru ei angen, mewn pryd ar gyfer haf 2023. Ychwanegwyd y byddai hyn wedyn yn cyd-fynd â chasgliad yr ymgynghoriad, a allai alluogi'r Bwrdd Iechyd i wneud y gwaith hwn gyda'i gilydd, gan gynnwys gwaith ychwanegol ar ddewis y tir ar gyfer yr ysbyty newydd; a gobeithio, yr haf nesaf, y bydd yn gallu nodi'n glir y camau a'r amserlenni nesaf.

O ran ymgysylltu â'r rheini yr effeithiwyd arnynt ac sy'n ymwneud â'r gwaith sy'n cael ei wneud, eglurwyd bod y Bwrdd Iechyd ar hyn o bryd yn ymgysylltu â chynifer o bobl â phosib gan gynnwys cysylltu ag amryfal gynghorau tref; roedd yn bwysig ymgysylltu â'r cyhoedd yn gynnar, yn enwedig gan y byddant yn rhan o'r broses ymgynghori. Hysbyswyd yr Aelodau o fwriadau'r Bwrdd Iechyd a oedd yn cynnwys gwneud y gwaith hwn yn drafodaeth fyw a pharhaus, gyda'r holl randdeiliaid ac unrhyw un a oedd â diddordeb ynddo; roedd sgyrsiau'n cael eu cynnal â llawer o bobl, fel diwydiannau adeiladu a oedd yn ddefnyddiol ac yn gadarnhaol iawn.

Cododd Aelodau eu pryderon ynglŷn â staffio a chludiant ar gyfer datblygiad newydd yr ysbyty. Mynegwyd bod y ffactorau hyn yn heriau i'r Bwrdd Iechyd eu goresgyn; Roedd Swyddogion o'r Bwrdd Iechyd wedi treulio'r misoedd diwethaf yn cyfarfod â'r holl Gynghorau Cymunedol, Cyngor Bwrdeistref Sirol Penfro, yn mynd i Bwyllgorau Craffu ac yn cyfarfod â'r rheini oedd yn gysylltiedig ag ymgyrch *Save Withybush* er mwyn trafod y materion hyn.

Eglurwyd bod y Bwrdd Iechyd yn cynnal gwahanol gamau gweithredu o ran materion staffio; roedd gan Hywel Dda y rhaglen brentisiaethau fwyaf yn y DU o ran nyrsys, roedd wedi cyflogi 100 o nyrsys tramor eleni, ac roeddent yn gwneud popeth posib i hysbysebu ar gyfer swyddi.

Sicrhawyd y Pwyllgor nad oedd y Bwrdd Iechyd yn bwriadu cwtogi ar y gwasanaethau yn y ddau ysbyty arall cyn adeiladu'r ysbyty newydd; fodd bynnag, roedd rhai o'r gwasanaethau hyn yn fregus iawn ar hyn o bryd, ac ymroddiad ac ewyllys da'r gweithwyr yn unig oedd yn eu cynnal. Ychwanegwyd mai'r unig ffordd i oresgyn yr anawsterau presennol oedd darparu’r datblygiad newydd ar gyfer yr ysbyty; ar wahân i'r manteision iechyd, bydd yn gyfle gwych i lawer o feysydd eraill fel y diwydiant adeiladu a'r economi sylfaenol.

O ran y ddau ysbyty sydd ar ôl yn yr ardal, cadarnhawyd y byddant yn dal i gael eu cynnal; fodd bynnag, byddant yn canolbwyntio ar adsefydlu, gwellhad, a galluogi cleifion i adael yr ysbyty er mwyn iddynt gael gofal yn agos i'w cartrefi a'u perthnasau, a fydd yn caniatáu i weithwyr ddarparu'r gofal mwy arbenigol. Hysbyswyd yr Aelodau fod 70% o'r bobl sy'n mynd i'r adran Damweiniau ac Achosion Brys yn dioddef o fân anafiadau; bydd hyn yn aros yr un peth yn Ysbyty Llwynhelyg gydag uned 24/7 wedi'i harwain gan Feddygon Teulu, a nodwyd ei bod yn llwyddiannus iawn ac wedi'i chroesawu gan y boblogaeth. Amlygwyd pwysigrwydd y canolfannau iechyd a gofal integredig yn yr ardaloedd lleol ar draws gorllewin Cymru, yn enwedig gan nad oes yn rhaid i bobl deithio ymhellach na'r angen.

Mynegodd y Pwyllgor yr angen am wasanaethau i barhau yn yr ysbytai hyn tan i'r ysbyty newydd gael ei adeiladu. Sicrhaodd y Bwrdd Iechyd Aelodau mai dyna'r bwriad, ac nad oedd cynlluniau i gwtogi'r gwasanaethau yn yr ysbytai presennol ymlaen llaw; roedd rhai elfennau allan o reolaeth y Bwrdd Iechyd, fodd bynnag roeddent yn gwneud popeth posib i gynnal yr ysbytai a'r gwasanaethau roeddent yn eu darparu.

Myfyriodd yr Aelodau ar y materion presennol sy'n ymwneud â meddygfeydd, a'r angen i sicrhau bod rhywun ar ddyletswydd yn yr hybiau lleol er mwyn i'r cysyniad newydd weithio'n effeithiol. Gofynnwyd hefyd a oedd y Bwrdd Iechyd wedi cwblhau unrhyw waith arolygu i ganfod unrhyw broblemau eraill ar wahân i gludiant, ac a ellid cael gafael ar staff er mwyn cynnal y gwasanaethau gofynnol. Cadarnhaodd y Bwrdd Iechyd bod materion eraill i'w datrys (ar wahân i gludiant; roedd hyn yn cynnwys tai, yn enwedig yn Sir Benfro. Fel y soniwyd eisoes, roedd Hywel Dda wedi cyflogi 100 o nyrsys tramor eleni, fodd bynnag roeddent yn ei chael hi'n anodd darparu tai ar eu cyfer yn Sir Benfro; roedd nifer ohonynt yn cael eu cartrefu yn Sir Gaerfyrddin. Cyfeiriwyd at bwysigrwydd gweithio gyda sectorau eraill, ac edrych ar adeiladu tai fforddiadwy neu ddarparu llety nyrsys yn agosach at yr ysbyty; roedd y Bwrdd Iechyd mewn trafodaethau â Sir Gâr ynglŷn â safleoedd penodol, a dyfodol Ysbyty Cyffredinol Glangwili, oherwydd mae’n bosib y bydd rhywfaint o dir dros ben y gellid ei ddefnyddio at ddibenion tai.

O ran meddygfeydd, tynnwyd sylw at y ffaith bod y darlun mewn perthynas â’r sefyllfa bresennol yn un cymysg iawn gan fod y Bwrdd Iechyd yn cwmpasu ardal ddaearyddol mor fawr. Nodwyd bod nifer o bobl wedi ymweld â'r hybiau iechyd a gofal integredig, a

chydnabuwyd bod yr effaith ar forâl, yr amodau gwaith a'r gwaith amlddisgyblaethol yn wirioneddol ddeniadol i staff. Roedd y Bwrdd Iechyd yn parhau â'u gwaith o ran recriwtio meddygon teulu; fodd bynnag, amlygodd fod y gweithlu'n her ar gyfer bob sefydliad yn y sector cyhoeddus, a phob math o swyddi yn y gwasanaeth. Cydnabuwyd na fydd y strategaeth a'r cynllun newydd yn datrys yr holl faterion presennol, fodd bynnag byddai'n ddefnyddiol wrth geisio ymdrin â nhw. Hysbyswyd y Pwyllgor am bwysigrwydd yr angen i ddarparu cyfleusterau gwell i ddenu pobl i'r gwasanaeth, a gwella'r ystod o wasanaethau y gellid eu darparu'n lleol.

Cafwyd trafodaeth bellach mewn perthynas â chysyniad dylunio bioffilig yr ysbyty newydd; roedd cynllun ar waith yn Abertawe ar hyn o bryd, oedd yn darparu llawer o ddysgu ac ymchwil o ran manteision iechyd y cysyniad bioffilig. Ychwanegwyd bod digonedd o gyfleoedd a meysydd i'w harchwilio o fewn y cysyniad hwn.

## 6. <u>PENODI YMGYNGHORWYR</u>

Hysbyswyd yr Aelodau fod cyfle i gynnwys cynghorwyr y sector preifat er mwyn llywio gwaith Cyd-bwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru. Amlygwyd bod y cynigion a oedd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad a ddosbarthwyd yn nodi'r bwriad o fabwysiadu model, yn debyg i Gyd-bwyllgor Dinas-ranbarth Bae Abertawe, lle sefydlwyd bwrdd cynghori fel rhan o Gyd-bwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru; byddai'r bwrdd hwn yn cynnwys ymgynghorwyr o'r sector preifat, a fyddai'n gallu rhoi cyngor ar y gwahanol ddyletswyddau y bydd y Pwyllgor yn eu cyflawni.

Dywedodd Swyddogion fod yr adroddiad a ddosbarthwyd yn nodi cylch gorchwyl y grŵp cynghori, a oedd wedi'u cynnwys yn Atodiad Un. Eglurwyd bod Swyddogion yn ceisio cymeradwyaeth i gyfethol Aelodau heb hawliau pleidleisio ar y bwrdd cynghori, a fyddai hefyd yr un peth i Gadeirydd y bwrdd; roeddent hefyd yn ceisio i Aelodau roi awdurdod dirprwyedig i'r Prif Weithredwr, mewn cydweithrediad ac ymgynghoriad â'r Arweinwyr, i gynnal ymarfer recriwtio i benodi ymgynghorwyr ychwanegol yn y dyfodol, er mwyn edrych ar raglenni gwaith penodol Cyd-bwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru.

**PENDERFYNWYD:**
(a) Bod Aelodau'n cytuno i benodi cynrychiolwyr o'r sector preifat i Fwrdd Cynghori Cyd-bwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru yn amodol ar gwblhau cytundeb cynghori

(b) Bod Aelodau'n cytuno ar gylch gorchwyl y Bwrdd Cynghori sy’n amgaeedig yn Atodiad 1 yr adroddiad
(c) Bod Aelodau'n rhoi awdurdod dirprwyedig i'r Prif Weithredwr gynnal ymarfer recriwtio i benodi Aelodau ychwanegol o'r Bwrdd Cynghori mewn perthynas â swyddogaethau statudol y Cyd-bwyllgor Corfforedig
(ch) Bod Aelodau'n cymeradwyo rhoi statws cyfetholedig i gadeirydd y bwrdd cynghori ar sail heb hawliau pleidleisio yn amodol ar dderbyn cytundeb cyfethol wedi'i lofnodi

## 7. CYLCH GORCHWYL AR GYFER IS-BWYLLGORAU

Derbyniodd y Pwyllgor y cylch gorchwyl ar gyfer is-bwyllgorau Cyd-bwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru.

Dywedodd y Cadeirydd fod diwygiad i'r adroddiad a gyhoeddwyd y nodwyd ei fod fel a ganlyn:

- Y Cynghorydd Darren Price fydd yr Arweinydd Gwleidyddol ar yr Is-bwyllgor Cynllunio Trafnidiaeth Rhanbarthol

- Y Cynghorydd Steve Hunt fydd yr Arweinydd Gwleidyddol ar yr Is-bwyllgor Cynllunio Datblygu Strategol

Dywedwyd mewn cyfarfod blaenorol, fod Cyd-bwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru wedi sefydlu pedwar is-bwyllgor ar wahân i edrych ar feysydd penodol o'r rhaglen waith; sefydlwyd un is-bwyllgor gohebu ar gyfer pob un o'r pedwar maes gwaith.

Ychwanegodd Swyddogion fod yr adroddiad yn nodi'r cylch gorchwyl ar gyfer yr is-bwyllgorau a oedd yn ymdrin ag elfennau fel pwy fydd yn bresennol yn y cyfarfodydd, beth fydd rôl yr is-bwyllgor, a'r cylch gwaith y byddant yn gweithredu ynddo.

Soniwyd bod y rhestr o'r mynychwyr ar yr Is-bwyllgor Cynllunio Datblygu Strategol, a oedd wedi'i chynnwys yn yr adroddiad a ddosbarthwyd, yn manylu y bydd gan Gyfarwyddwyr Rhanbarthol Cynghorau Cyfansoddol, sydd â chyfrifoldeb dros ardaloedd Cyd-bwyllgor Corfforedig, hawl i fod yn bresennol mewn unrhyw gyfarfod o’r is-Bwyllgor. Dywedwyd y dylai fod yn glir y byddai Cyfarwyddwyr Rhanbarthol Awdurdodau Parciau Cenedlaethol hefyd yn cael eu cynnwys yn hyn. Cadarnhaodd y Cadeirydd y gellir egluro hyn yn y dyfodol, a'r bwriad oedd y byddent yn gallu gwneud sylwadau yng nghyfarfodydd yr is-bwyllgor.

**PENDERFYNWYD:**
Bod yr Aelodau'n cymeradwyo'r cylch gorchwyl ar gyfer is-bwyllgorau'r Cyd-bwyllgor Corfforedig sydd wedi'i gynnwys yn Atodiad 1.

## 8. POLISÏAU LLYWODRAETHU GWYBODAETH A DIOGELU DATA

Darparwyd adroddiad a oedd yn manylu ar fabwysiadu polisïau diogelu data a diogelwch gwybodaeth i'r Pwyllgor.

Eglurwyd bod gan Gyd-bwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru gyfrifoldebau mewn perthynas â chydymffurfio â Deddf Diogelu Data 2018, a phrosesau eraill mewn perthynas â llywodraethu gwybodaeth.

Dywedodd Swyddogion fod y cynnig yn yr adroddiad yn nodi bwriad i fabwysiadu cyfres o ddogfennau a fyddai'n helpu i ddangos cydymffurfiaeth y Pwyllgor â Deddf Diogelu Data 2018. Yn ogystal â hyn, hysbyswyd yr Aelodau mai rhwymedigaeth ychwanegol oedd yr angen i ddirprwyo Swyddog Diogelu Data; y person hwn fyddai'n gyfrifol am sicrhau cydymffurfiaeth â'r ddeddfwriaeth diogelu data. Soniwyd mai'r bwriad oedd enwebu Craig Griffiths, Swyddog Monitro, fel y Swyddog Diogelu Data.

**PENDERFYNWYD:**
(a) Bod yr Aelodau'n dynodi'r Swyddog Monitro fel y Swyddog Diogelu Data Statudol yn unol â Deddf Diogelu Data 2018;
(b) Bod yr Aelodau'n mabwysiadu'r Datganiad Preifatrwydd sydd wedi'i gynnwys yn Atodiad 1
(c) Bod Aelodau'n mabwysiadu'r polisïau canlynol i’w defnyddio gan Gyd-bwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru sydd wedi'u cynnwys yn Atodiad 2:

- Polisi Diogelu Data
- Polisi Defnydd Derbyniol
- Polisi Cofnodi Digwyddiadau
- Polisi Diogelwch Gwybodaeth
- Polisi Torri Diogelwch Gwybodaeth
- Polisi Diogelwch TG
- Polisi Diogelwch Dyfeisiau Symudol
- Polisi Cyfryngau Symudol

## 9. SAFONAU'R GYMRAEG - SEFYLLFA BOLISI DROS DRO

Derbyniodd yr Aelodau adroddiad ynghylch safbwynt polisi dros dro mewn perthynas â Safonau'r Gymraeg.

Nodwyd bod nifer o ddyletswyddau yn y sector cyhoeddus a gymhwyswyd i Gyd-bwyllgorau Corfforedig; roedd un o'r dyletswyddau hynny'n ymwneud â'r Gymraeg. Hysbyswyd y Pwyllgor fod Prif Weithredwr Cyd-bwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru eisoes wedi bod i gyfarfod gyda chynrychiolwyr Comisiynydd y Gymraeg; fodd bynnag, roedd yn ymddangos bod cwblhau'r broses ar gyfer cymhwyso Safonau penodol i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig gryn amser i ffwrdd. Cadarnhawyd y byddai'r Prif Weithredwr yn adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ar ganlyniad y broses hon; fodd bynnag, fel mesur dros dro, fe'i hystyriwyd yn briodol i fabwysiadu ymagwedd ragweithiol at y mater hwn yn absenoldeb gosod Safonau ar y Cyd-bwyllgor Corfforedig gan Gomisiynydd y Gymraeg.

Roedd y cynigion a nodwyd yn yr adroddiad yn argymell bod Aelodau'n mabwysiadu'r Safonau sydd wedi‘u cymhwyso i Gyngor Sir Gâr.

**PENDERFYNWYD:**
(a) Bod yr Aelodau'n nodi bod y Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn cael eu hannog i groesawu amcanion polisi Llywodraeth Cymru ynglŷn â'r Gymraeg yn rhagweithiol.
(b) Bod yr Aelodau'n cytuno i fabwysiadu Safonau'r Gymraeg sydd wedi’u cymhwyso gan Gomisiynydd y Gymraeg i Safonau Cyngor Sir Gâr fel safbwynt polisi dros dro.

## 10. FFURFIO CYNLLUN CORFFORAETHOL CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG DE-ORLLEWIN CYMRU

Briffiwyd yr Aelodau ar y cynnig i lunio Cynllun Corfforaethol; byddai'r broses hon yn cynnwys nifer o ddyletswyddau'r sector cyhoeddus a osodwyd ar y Cyd-bwyllgorau Corfforedig.

Esboniodd Prif Weithredwr Cyd-bwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru fod nifer o ddyletswyddau sector cyhoeddus a oedd yn berthnasol i bob Cyd-bwyllgor Corfforedig. Nodwyd, yn hytrach na pharatoi cyfres o gynlluniau a pholisïau ar wahân, fod Swyddogion yn cynnig eu cynnwys mewn un ddogfen unigol a fyddai'n nodi amcanion y Cyd-bwyllgor Corfforedig a sicrhau bod dyletswyddau'r sector cyhoeddus yn cael eu croesawu'n briodol yn hyn o beth.

Ystyriwyd y byddai llunio'r Cynllun Corfforaethol yn arwain at ymagwedd integredig a chymesur at gyflawni dyletswyddau'r sector cyhoeddus, gan gynnwys nodi amcanion lles. Cadarnhaodd Swyddogion y gallent gyflwyno'r Cynllun Corfforaethol drafft i'r Pwyllgor yng nghyfarfod mis Rhagfyr 2022.

**PENDERFYNWYD:**
(a) Bod yr Aelodau'n cymeradwyo'r egwyddor o gymryd ymagwedd gymesur ac integredig at gyflawni dyletswyddau sector cyhoeddus y Cyd-bwyllgorau Corfforedig drwy Gynllun Corfforaethol.
(b) Bod Cynllun Corfforaethol drafft yn cael ei gyflwyno i Aelodau ym mis Rhagfyr gyda'r bwriad o sicrhau cymeradwyaeth Aelodau ar gyfer cynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar hynny yn gynnar yn 2023;
(c) Yn ychwanegol at (b) uchod, bydd unrhyw ymatebion i'r ymgynghoriad a dderbynnir yn cael eu hadrodd yn ôl i Aelodau gyda'r bwriad o lywio fersiwn derfynol o'r cynllun cyn iddo gael ei fabwysiadu'n ffurfiol

11. **CYMERADWYO PECYN OFFER ASESU EFFAITH CYDRADDOLDEB CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG DE-ORLLEWIN CYMRU**

Cyfeiriwyd at y cynnig i fabwysiadu Pecyn Cymorth Asesiad Effaith Integredig er mwyn cefnogi gwaith Cyd-bwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru.

Esboniodd Swyddogion ei bod yn bwysig ystyried yr ystyriaethau deddfwriaethol a pholisi perthnasol hynny ar y pwynt gwneud penderfyniadau; bydd cynnwys ystyriaethau o'r fath yn y broses gwneud penderfyniadau’n lleihau'r risg o her gyfreithiol.

Yn hytrach na chael ymagwedd Asesiad Effaith Integredig bwrpasol ar gyfer Cyd-bwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru, cynigiwyd y byddai'r pecyn cymorth a ddefnyddir gan Gyngor Castell-nedd Port Talbot yn cael ei fabwysiadu, gyda diwygiadau golygyddol argraffyddol a/neu nad ydynt yn sylweddol yn cael eu gwneud fel y bo'n briodol gan Swyddogion i adlewyrchu’i ddefnydd gan y Cyd-bwyllgor Corfforedig.

Tynnodd yr Aelodau sylw at bwysigrwydd bod yn ystyriol o'r ysgogwyr, yn enwedig yn y cynllun cydraddoldeb hiliol gan Lywodraeth Cymru, a fyddai'n ei gwneud yn ofynnol i'r Pwyllgor fynd y tu hwnt i gydymffurfio. Dywedodd Swyddogion y byddai'r Cynllun Corfforaethol yn nodi peth o'r gwaith mwy rhagweithiol hwnnw y

byddai'r Pwyllgor yn bwriadu’i wneud; byddai hyn yn cael ei ddangos mewn elfennau fel yr amcanion lles a’r camau gweithredu a gaiff eu pennu. Nodwyd bod yr adroddiad hwn yn canolbwyntio mwy ar yr ystyriaethau cyn gwneud penderfyniadau unigol, er mwyn gwneud yn siŵr bod yr holl ddyletswyddau gwahanol wedi'u cynnwys, a fyddai wedyn yn helpu i ddiogelu Cyd-bwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru rhag y risg o her gyfreithiol.

**PENDERFYNWYD:**
(a) Bod yr Aelodau'n nodi'r angen i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig groesawu dyletswyddau'r sector cyhoeddus a gymhwysir iddo.
(b) Bod yr Aelodau'n cytuno i fabwysiadu Pecyn Cymorth Asesiad Effaith Integredig 2 gam Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot i helpu'r Cyd-bwyllgor Corfforedig i gyflawni dyletswyddau'r sector cyhoeddus.

12. **CYHOEDDI PROSBECTWS PORTHLADDOEDD RHYDD AR GYFER CYMRU**

Roedd yr adroddiad a ddosbarthwyd yn manylu ar wybodaeth yn ymwneud â chyhoeddi Prosbectws Porthladdoedd Rhydd ar gyfer Cymru.

Eglurwyd bod cyfle i wneud cais am statws Porthladdoedd Rhydd yng Nghymru; roedd hwn yn brosbectws ar y cyd oedd wedi’i ddatblygu rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU. Hysbyswyd yr Aelodau fod consortiwm wedi’i sefydlu rhwng Cyngor Sir Penfro, Cyngor Castell-nedd Port Talbot, a dau borthladd Aberdaugleddau a Phort Talbot; y bwriad yw y bydd y cais yn datblygu cyflwyniad Porthladdoedd Rhydd, yn seiliedig ar gyfleoedd y credid eu bod ar gael yn y ddwy ardal borthladd hynny yn ymwneud â'r cyfle ar gyfer tyrbin fferm wynt ar y môr yn y Môr Celtaidd, a'r agenda ynni adnewyddadwy ehangach.

Roedd y cynnig, a oedd wedi'i gynnwys yr adroddiad a ddosbarthwyd, yn ceisio cefnogaeth gan yr Aelodau mewn egwyddor, er mwyn i'r cyflwyniad hwn gael ei dderbyn gan Lywodraeth Cymru; roedd Swyddogion yn benderfynol o fanteisio ar y cyfle i sicrhau manteision ehangach ar draws y rhanbarth cyfan. Soniwyd bod yr Arweinwyr wedi gofyn am sicrwydd pellach ar ôl i'r cais gael ei ddatblygu ymhellach, er mwyn sicrhau yr amlygir ac yr eir i’r afael ag unrhyw risgiau sy'n ymwneud â dadleoli unrhyw weithgarwch economaidd fel rhan o'r cyflwyniad datblygu cais; Cadarnhaodd Swyddogion y byddent yn rhoi'r sicrwydd hwn.

**PENDERFYNWYD:**
(a) Bod Aelodau'n nodi cynnwys yr adroddiad
(b) Nodi cefnogaeth y Cyd-bwyllgor Corfforedig i'r cais sy'n cael ei baratoi gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Sir Benfro, Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot mewn partneriaeth â phorthladdoedd Aberdaugleddau a Phort Talbot

13. **ACHWILIO CYMRU - DULL O ARCHWILIO'R CYD-BWYLLGORAU CORFFORAETHOL A DEALL ESBLYGIAD EU TREFNIADAU**

Rhoddwyd yr wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am yr ymagwedd a gaiff ei mabwysiadu gan Archwilio Cymru ynghylch cynnal adolygiad tirwedd cynnar i ddeall trefniadau datblygol Cyd-bwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru, ac wrth archwilio'r Pwyllgor o safbwynt cyfrifo ar gyfer blynyddoedd ariannol 2021/22 a 2022/23.

Roedd y llythyr a gynhwyswyd yn Atodiad 1 o'r adroddiad a ddosbarthwyd yn nodi sefyllfa Archwilio Cymru o ran y llywodraethu, a monitro'r llywodraethu hwnnw; roedd y llythyr hefyd yn nodi'r gwaith y byddant yn ei wneud wrth adolygu'r llywodraethu eleni, a chael gwell dealltwriaeth o sut mae Cyd-bwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru yn datblygu.

Roedd cyfrifoldeb statudol arall Archwilio Cymru yn ymwneud â chyfrifon; roedd yr adroddiad a ddosbarthwyd yn egluro’u sefyllfa o ran cyfrifon 2021/22, yr adroddwyd amdanynt yn flaenorol; ni phroseswyd unrhyw drafodion ar gyfer 2021/22, felly cadarnhaodd Archwilio Cymru na fyddent yn cynnal archwiliad nac adolygiad o'r flwyddyn benodol honno.

Cyfeiriwyd at y cynigion a nodwyd ar gyfer y flwyddyn nesaf; roedd Archwilio Cymru wedi adolygu cyllideb y Pwyllgor gan nodi, oherwydd bod y gyllideb yn is na £2.5 miliwn, sef y trothwy ar gyfer sefydliadau bach, y byddant yn derbyn datganiad blynyddol fel datganiad o gyfrifon llawn. Nodwyd bod hyn yn gadarnhaol oherwydd byddai llai o waith gweinyddol ynghlwm wrth hyn.

Eglurwyd y bydd datblygiad Cyd-bwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru yn y dyfodol yn ddibynnol ar elfennau fel beth sy'n digwydd gyda rhai o'r ffrydiau gwaith a pha gyllid fyddai'n cael ei dderbyn yn y dyfodol.

Soniodd Swyddogion fod y ffïoedd ar gyfer Archwilio Cymru hefyd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad a ddosbarthwyd; codir ffi o £2,000 ar gyfer y gwaith a gaiff ei wneud eleni o ran y llywodraethu, a bydd hynny'n datblygu ymhellach y flwyddyn nesaf o ganlyniad i'r gwaith archwilio bach y bydd yn rhaid ei wneud ar y cyfrifon.

**PENDERFYNWYD:**
a) Bod yr Aelodau'n nodi cynnwys yr adroddiad hwn.
(b) Bod Swyddogion Gweithredol y Cyd-bwyllgor Corfforedig yn ymateb fel y bo'n briodol i'r gofynion fel yr amlinellir gan Archwilio Cymru

14. **EITEMAU BRYS**

Ni dderbyniwyd unrhyw eitemau brys.

**CADEIRYDD**